

# Cynlluniau Lle Ceredigion Place Plans

# Cynllun Lle Aberaeron

# 2019



Cyngor Sir  
**CEREDIGION**  
County Council



# CYNLLUN LLE ABERAERON

Tachwedd 2019

## Cyflwyniad

Anogwyd pob cymuned yng Nghymru i ddatblygu Cynllun Lle. Datblygwyd Cynllun Lle Aberaeron gan Gyngor Tref Aberaeron ar y cyd â'r gymuned leol a Chyngor Sir Ceredigion. Bellach, mae gan gymunedau yng Nghymru fwy o gyfle nag erioed o'r blaen i siapia dyfodol y manau lle y maent yn byw ac yn gweithio.

Mae'r Cynllun yn cysylltu gyda dogfennau strategol eraill y Cyngor Sir, gan gynnwys:-

- Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion
- Cynllun Integredig Sengl Ceredigion
- Ceredigion i Bawb (Bwrdd Gwasanaethau Lleol)
- Strategaeth Gorfforaethol Ceredigion
- Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (ROWIP)
- Cynllun Gwella Llesiant Ceredigion

O'r herwydd, gall y ddogfen weithredu fel Canllawiau Cynlluniau Atodol a arweinir gan y gymuned ar gyfer yr awdurdod lleol, a gall gynorthwyo gyda phenderfyniadau a chynlluniau mewn perthynas â'r defnydd o dir a datblygiad tir, ynghyd â newidiadau a gwelliannau i wasanaethau lleol. Gall y ddogfen gynorthwyo wrth gyflawni uchelgais leol a gwella llesiant cymunedol.

## Cyd-destun y Cefndir

Mae Aberaeron yn dref yng ngorllewin Ceredigion, a leolir ar hyd cefnffordd arfordirol yr A487. Cynlluniwyd y dref yn gynnar yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg ac mae'n cynnwys adeiladau cain yn arddull cyfnod y Rhaglywiaeth a leolir o gwmpas prif sgwâr a'r harbwr, y mae bellach yn rhan o ardal gadwraeth, a diogelir nifer o'r adeiladau hyn gan statws adeilad rhestredig. Gwelwyd datblygiad diweddarach yn digwydd y tu hwnt i'r ardal hanesyddol hon, ac mae hyn yn cynnwys anheddau, siopau, busnesau a llety gwyliau.

Prif ddiwydiant y dref yw twristiaeth, ond mae hefyd yn gartref i wasanaethau cyhoeddus pwysig gan gynnwys Cyngor Sir Ceredigion a'r Ganolfan Iechyd Integredig newydd, y mae'r ddau ohonynt yn creu cyfleoedd cyflogaeth sylweddol.

Mae cyfleusterau cymunedol y dref yn gwasanaethu tref Aberaeron a'r ardal ehangach hefyd. Mae hyn yn cynnwys canolfan hamdden, pwll nofio, cartref preswyl ac uned tai gwarchod. Mae'r practis Meddyg Teulu yn gwasanaethu ardal eang ac mae wedi'i leoli yn y ganolfan iechyd integredig newydd.

Lleolir ysgol gynradd, ysgol uwchradd sy'n cynnwys 6ed Dosbarth, Uned Cyfeirio Disgyblion ac Uned Awtistiaeth Canolfan y Môr yn y dref, gan wasanaethu'r dalgylch lleol a rhannau eraill o Geredigion. Mae Gwasanaeth Ieuencid y Sir yn cynnal clwb ieuencid statudol ac mae nifer o sefydliadau mewn lifrai a heb lifrai eraill yn darparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc.

Mae gan Aberaeron dreftadaeth gref ym maes chwaraeon, a cheir nifer o glybiau yn y dref sy'n cynnig lluo o gyfleoedd chwaraeon. Ceir nifer o sefydliadau sy'n cynnig cyfleoedd artistig a diwylliannol hefyd

Felly, mae'r dref yn darparu amrediad o wasanaethau i gymuned ehangach, gan gynnwys siopa, iechyd, hamdden, dysgu a chyfleusterau cymunedol.

## **Gweledigaeth ar gyfer y Dyfodol**

Ein gweledigaeth yw y bydd Aberaeron yn:-

“Coleddu newid ond yn cadw ei threftadaeth ddiwylliannol a'i hunaniaeth fel lle arbennig yng Ngheredigion”.

Mae Cyngor y Dref a'r ddogfen hon yn ceisio:

- gwneud y dref yn lle deniadol i fyw;
- hyrwyddo twf busnes a chyfleoedd cyflogaeth gwell;
- cadw a gwella gwasanaethau er budd y dref a'r gymuned ehangach;
- cynnal a hyrwyddo ei threftadaeth ddiwylliannol a'r Iaith Gymraeg;
- parhau i ddatblygu Aberaeron fel cyrchfan pwysig i dwristiaid.

## **Ymgynghoriad**

Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau ymgynghori ac mae preswylwyr lleol ac ymwelwyr wedi cyfrannu at y cynllun a'i weledigaeth ar gyfer y dyfodol. Datblygwyd y ddogfen derfynol mewn partneriaeth gydag ymgynghorwyr arbenigol a swyddogion arbenigol o'r awdurdod lleol.

## Cynladwyedd

Er mwyn sicrhau bod datblygiad yn y dyfodol yn gadarnhaol ac yn effeithiol, datblygir yr holl gamau gweithredu mewn perthynas â materion a themâu a nodwyd mewn partneriaeth gydag eraill gan gynnwys Cyngor Sir Ceredigion, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Heddlu Dyfed-Powys, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion a Llywodraeth Cymru. Cynhelir ymgynghoriad llawn gyda busnesau a phreswylwyr lleol hefyd.

I'r perwyl hwn, mae Cyngor y Dref yn datblygu strategaeth ehangach ar hyn o bryd a fydd yn cynnig cyfeiriad ac arweiniad i ddatblygiadau a gwelliannau yn y dref. Cefnogir hon gan gyfres o Gynlluniau Blynyddol er mwyn cynorthwyo gydag eglurder a gweithredu, i sicrhau bod y preswylwyr yn cyfranogi'n llawn ac yn ymwybodol o ddatblygiadau a gwelliannau.

## Prif Themâu

O ran datblygiad yn y dyfodol, boed hynny yn ddatblygu'r amgylchedd adeiledig, yr amgylchedd naturiol neu wasanaethau, ceir nifer o ffactorau y mae angen eu hystyried. Mae hyn yn cynnwys polisiau lleol a chenedlaethol, y bydd rhai ohonynt yn gefnogol a rhai ohonynt yn gyfyngol. Cyfeirir at bolisiau o'r fath pan fo hynny'n berthnasol.

Dyheadau ac uchelgais y gymuned. Mae'n bwysig y bodlonir anghenion y gymuned, fodd bynnag, rhaid sicrhau cydbwysedd rhwng hyn a chyfyngiadau posibl gan gynnwys daearyddiaeth leol, maint y boblogaeth ac amrywiadau, cyfyngiadau ariannol, cyfleoedd i sicrhau cyllid ar ffurf grantiau a phethau eraill o'r fath. Gwneir cyfeiriadau at adborth cymunedol a gafwyd o ymarferion ymgynghori a hysbysir y gymuned ehangach, ac ymgynghorir â hi yn y dyfodol.

O'r herwydd, mae'r ddogfen hon, er ei bod yn amlinellu datblygiadau posibl yn y dyfodol i Aberaeron, yn ddogfen a allai newid eto, a bydd yn parhau i gael ei diweddarau a'i haddasu yn rheolaidd.

Rhannwyd y prif themâu i ddeg maes er mwyn cynorthwyo gydag eglurder a dealltwriaeth. Ceir, fodd bynnag, sawl enghraifft amlwg o orgyffwrdd a chysylltiadau rhwng themâu.

### 1. Strategaeth ar gyfer y Dyfodol

Nodwyd y weledigaeth ar gyfer Aberaeron yn fras yn barod, a datblygwyd hon ar gefn yr ymarferion ymgynghori gyda'r gymuned. Datblygir y meysydd hyn yn fanylach mewn themâu eraill.

Y nodau strategol yw:-

- sicrhau bod y dref yn lle deniadol i fyw;
- hyrwyddo twf busnes a chyfleoedd cyflogaeth gwell;

- cadw a gwella gwasanaethau er budd y dref a'r gymuned ehangach;
- cynnal a hyrwyddo ei threftadaeth ddiwylliannol a'r laith Gymraeg;
- parhau i ddatblygu Aberaeron fel cyrchfan pwysig i dwristiaid.

*Cysylltiadau i Bolisiau'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI):*

Polisi DM19: Tirlun Hanesyddol a Diwylliannol (sy'n diogelu adeiladau o bwysigrwydd diwylliannol a hanesyddol)

Polisi DM07: Ardaloedd Cadwraeth

Polisi DM03: Teithio Cynaliadwy

Polisi LU18 ac 19 Cynigion Manwerthu ar draws y Sir ac mewn canolfannau gwasanaeth Trefol ac LU21 Newid defnydd o Ddefnydd Manwerthu Presennol

Polisi LU22: Darpariaeth Gymunedol

Polisi DM09: Dylunio a Symud, Polisi DM10: Dylunio a Thirlunio

## 2. Canolbwyntiau

Mae gan bob tref brif ganolbwyntiau, tirnodau ac atyniadau sy'n eu gwneud yn unigryw. Mae'n bwysig cynnal y rhai sy'n bodoli eisoes lle bynnag y bo modd, ond ar yr un pryd, eu gwella a'u datblygu pryd bynnag y bo modd a datblygu rhai newydd. Mae'r canolbwyntiau i Aberaeron yn cynnwys;

- **Yr harbwr mewnol ac allanol.** Mae nifer yn barnu mai'r rhain yw prif ffocws y dref. Mae'n hanfodol bod yr harbwr a'i strwythurau yn cael eu cynnal a'u gwella er mwyn parhau a datblygu ei draddodiad fel harbwr ar gyfer gweithgareddau hwylio a physgota, a hefyd, fel canolbwynt i dwristiaid er gwaethaf unrhyw waith y mae gofyn ei wneud ar frys i amddiffyn yr harbwr. Ceir potensial i wella'r ardaloedd sydd wrth ymyl yr harbwr ym Mhwll Cam, ardal Traeth y De a gerllaw y Ganolfan Gwybodaeth i Dwristiaid, sydd wedi mynd yn anniben dros y blynyddoedd diwethaf.

*Adborth gan y gymuned;*

“Gwella'r angorfeydd a datblygu'r harbwr er mwyn ei wneud yn gyrcffan gwell i'r rhai sy'n hwylio.”

“Gosod llifddorau a datblygu ysgraffau.”

“Delio gyda'r broblem llifogydd”.

- **Cae Sgwâr.** Y Cae Sgwâr yw un o'r safleoedd hamdden a ddefnyddir fwyaf yn y dref, felly mae ei gadw a'i ddatblygu yn hanfodol ar gyfer cynladwyedd. Bellach, caiff y sgwâr ei gynnal a'i gadw gan Gyngor y Dref ac mae'r gwaith yn mynd rhagddo yn gyson i'w gadw yn lle deniadol.

*Adborth gan y gymuned;*

“Darparu ffownten ddŵr ar gyfer dŵr yfed ffres.”

“Parchu a diogelu enwau hanesyddol adeiladau a lleoedd.”

- **Neuadd y Sir.** Mae'r adeilad hanesyddol hwn yn dirnod allweddol yng nghanol y dref. Mae'n darparu cyswllt cadarn rhwng y cyngor a'r preswylwyr, gan ei bod yn cael ei defnyddio fel swyddfeydd gan y Cyngor Sir ac mae'n cynnwys y lyfrgell lle y gwelir Canolfan Gyswllt y Cyngor Sir.
- **Yr Hen Ysbyty.** Mae cyfleusterau'r ysbyty wedi symud i'r Ganolfan Iechyd a Gofal Integredig newydd yn y dref nawr, ac fe allai hon gael ei hystyried yn dirnod newydd yn y dref. Ni luniwyd cynlluniau ar gyfer yr hen adeilad eto, fodd bynnag, ceir dymuniad i gadw cymeriad yr adeilad fel tirnod pwysig.

*Cysylltiadau i bolisiau'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI):*

Polisi DM19: Tirlun Hanesyddol a Diwylliannol (mae'n diogelu adeiladau o bwysigrwydd diwylliannol a hanesyddol)

### 3. Gwella'r Stryd Fawr

Er ei bod yn dref fach heb nifer enfawr o siopau, mae Aberaeron yn ganolfan siopa allweddol ar gyfer y gymuned ehangach a rhannau eraill o orllewin Cymru. Ceir amrywiaeth o siopau, safleoedd manwerthu a lleoedd i fwyta a cheir amrediad da o ddarpariaeth, o siopau diwastraff sy'n cynnig gwerth da i'r rhai a ddisgrifir heddiw fel rhai “ym mhen ucha'r farchnad”. Bydd gwella a datblygu'r ddarpariaeth hon lle bynnag y bo modd yn cynnig budd mawr yn y dyfodol, felly mae'n rhaid i hyn gyd-fynd ag ansawdd bensaernïol y dref.

*Adborth gan y gymuned;*

“Mae cynnal canol y dref fel canolfan siopa fywiog yn hanfodol ar gyfer y dyfodol.”

“Mae cynnal ein siopau cyfleustra yn hanfodol ar gyfer bywiogrwydd y dref fel Canolfan Gwasanaethau Trefol.”

“Mae angen gwella tu blaen adeiladau.”

*Cysylltiadau i bolisiau'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI):*

Polisi LU18 ac 19 Cynigion Manwerthu ar draws y Sir ac mewn canolfannau gwasanaethau Trefol ac LU21 Newid defnydd o Ddefnydd Manwerthu Presennol

#### 4. Teithio cynaliadwy a hygyrchedd

Gwasanaethir Aberaeron yn dda gan y gwasanaethau bws, gyda llwybrau a bysiau rheolaidd o'r gogledd i'r de ac o'r dwyrain i'r gorllewin, yn ogystal â bws dyddiol i Abertawe a Chaerdydd. Fodd bynnag, dylid ystyried y materion canlynol mewn unrhyw gynllun rheoli traffig yn y dyfodol.

Cydnabyddir bod y ddarpariaeth parcio oddi ar y stryd yn y dref yn annigonol. Lleolir meysydd parcio talu ac arddangos yn Nhraeth y De, Traeth y Gogledd ac yn Ffordd y Gaer ar hyn o bryd, fodd bynnag, yn ystod cyfnodau prysur, nid yw hyn yn ddigonol i fodloni anghenion y dref. Mae angen cynnal adolygiad o'r lleoedd yn y dref y byddai modd newid eu defnydd a'u troi'n feysydd parcio.

Mae'r problemau hyn yn arwain at dagfeydd traffig yn datblygu yn y strydoedd a nifer fawr o achosion o bobl yn parcio'n anghyfreithlon ar ffurf parcio dwbl, ar linellau melyn ac mewn mannau peryglus. Ceir angen dirifol i gynnal adolygiad o lif y traffig yng nghanol y dref. Byddai hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddiogelwch cerddwyr.

Mae'r problemau parcio yn cael effaith niweidiol ar ymweliadau twristiaeth hefyd, sy'n gysylltiedig gyda bysiau, gan nad oes lleoliad addas i fysiau ollwng teithwyr yn y dref.

*Adborth gan y gymuned;*

“Byddai cyflwyno system un-ffordd yn Heol y Dŵr a Phen Cei yn dda, yn enwedig yn ystod yr haf.”

“Ceir problem ddifrifol wrth i draffig ddod allan o Sgwâr Alban wrth ei gyffordd gyda Stryd y Fro (A482).”

“Mae angen ystyried bws gwennol ar gyfer y dref, yng nghyd-destun gwasanaethu'r ganolfan iechyd integredig newydd.”

“Byddai'n dda cael mwy o barcio am ddim yn ystod oriau brig.”

*Cysylltiadau i bolisiau'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI):*

Polisi DM03 Teithio Cynaliadwy

#### 5. Gwella'r Amgylchedd Naturiol ac Adeiledig

Fel tref, mae Aberaeron yn cael budd o'r ffaith bod ganddi gydbwysedd gwych rhwng mannau gwyrdd ac adeiladau ac mae'n hanfodol cadw cymeriad y dref a diogelu pethau ar gyfer y dyfodol. Mae angen i unrhyw ddatblygiadau yn y naill ardal neu'r llall gadw a gwella cymeriad y dref.

Mae Aberaeron yn falch o'i chymeriad ac wrth i bethau ddatblygu, mae'n hanfodol bod gwasanaethau sylfaenol fel gwasanaeth glanhau y strydoedd yn cael eu cadw a'u gwella. Mae golwg gyfan gwbl y dref a'i glendid a'i hawyrgylch yn hanfodol er mwyn cynnal ei safle fel lle arbennig i ymweld ag ef.

Rhaid i'r holl ddatblygiadau yn y dref barchu treftadaeth bensaernïol y dref ac efallai y dylid ymestyn yr ardal gadwraeth yng nghanol y dref.

Dylid cynnal yr holl safleoedd gwyrdd i safon uchel a diogel hefyd, gan wneud gwelliannau lle bynnag y bo modd er budd preswylwyr a thwristiaid.

*Adborth gan y gymuned;*

“Hyrwyddo Aberaeron fel tref heb flerwch.”

“Gwella'r mynediad i gerddwyr.”

“Hyrwyddo amgylchedd sy'n rhydd rhag sbwriel.”

“Parchu dyluniad datblygiadau yng nghyd-destun amgylchedd Adeiladau Rhestredig.”

“Gweithio gyda CADW ar adeiladau rhestredig ond peidio cyfyngu ar ddatblygiadau gwyrdd.”

“Gwella'r amgylchedd naturiol er budd preswylwyr lleol.”

Archwilio cyfleoedd i sicrhau ynni lleol gwyrddach o'r afon a'r môr.”

“Darparu pwyntiau gwefru ar gyfer ceir trydan.”

*Cysylltiadau i bolisiâu'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI):*

Polisi DM06: Dylunio a Chreu Lle o Ansawdd Uchel,

Polisi DM09: Dylunio a Symud a

Polisi DM10: Dylunio a Thirlunio

## **6. Iechyd a Lles**

Rhaid manteisio ar bob cyfle i sicrhau bod unigolion, boed y rhain yn bobl leol neu'n ymwelwyr, yn gallu byw bywyd iach ac egnïol. Mae Aberaeron yn ffodus gan ei bod yn darparu lluo o gyfleoedd i unigolion gymryd rhan mewn ystod enfawr o weithgareddau. Rhaid ymdrechu i gynnal a gwella'r cyfleusterau a'r cyfleoedd presennol. Bellach, rhoddir sylw i iechyd y genedl yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, felly mae'n hanfodol ein bod yn edrych i'r dyfodol ac yn darparu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mewn perthynas â'r problemau blaenorol a oedd yn gysylltiedig gyda phroblemau traffig yn y dref, mae angen ystyried pob cyfle mewn perthynas â theithio llesol er mwyn lleihau nifer y teithiau byr a chynnig cyfleoedd i wella iechyd.

*Adborth gan y gymuned;*

“Mae angen cae pob tywydd ar Aberaeron.”

“Byddai'n dda gwella'r ystafelloedd newid wrth y cae criced/pêl-droed a chael clwb”



“Rhaid i ni sicrhau na fyddwn yn colli ein pwll nofio. Mae ein plant yn byw ger y môr ac mae angen eu bod yn gallu nofio”

“Gwella cyfleusterau'r harbwr a datblygu chwaraeon dŵr.”

“Gwella'r amgylchedd naturiol er budd preswylwyr lleol.”

“Ymestyn llwybr troed Llanerchaeron i Giliau Aeron.”

“Hyrwyddo cyfleoedd cerdded a llwybrau troed lleol.”

*Cysylltiadau i Bolisi:*

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

## 7. Twristiaeth

Mae Aberaeron yn gyrchfan pwysig i dwristiaid, y mae nifer ohonynt yn ymwelwyr sydd â charafán yn y dref neu ar gyrion y dref, ac y maent yn ymweld yn aml iawn ar benwythnosau ac am gyfnodau hwy. Mae nifer fawr yn ymweld â'r ganolfan gwybodaeth i dwristiaid ac mae hon yn darparu gwasanaeth nad yw'n berthnasol i'r dref yn unig, ond i'r ardal ehangach, gan gynnwys rhannau eraill o Geredigion. Er y darparir y gwasanaeth gan y Cyngor Sir, ariannir yr oriau agor ar ddydd Sul gan Gyngor y Dref.

Mae twristiaeth yn hanfodol i Aberaeron ac mae gan bob thema yn y ddogfen hon rhyw gyswllt gyda thwristiaid a'u hymweliadau ag Aberaeron. Felly, mae'n hanfodol sicrhau bod yr holl ddatblygiadau yn y dref yn cynnal cydbwysedd ac na fydd un datblygiad yn canslo neu'n cyfyngu ar un arall.

Yn ogystal â'r tirnodau a'r atyniadau y soniwyd amdanynt eisoes, ceir amrywiaeth eang o lety i dwristiaid yn Aberaeron. O feysydd carafannau a meysydd gwersylla i westai bwtic a bythynnod gwyliau. Gwneir defnydd da o'r rhain i gyd ac mae niferoedd yr ymwelwyr yn uchel, fodd bynnag, ceir dirywiad yn y sector gwely a brechwast ar hyn o bryd, ac mae busnesau ar werth. Mae'r gwesty mwyaf yn y dref, Gwesty Brenhinol y Plu, ar gau ar hyn o bryd ac mae hyn wedi cael effaith ar nifer y gwelyau sydd ar gael. Arferai'r gwesty fod yn lleoliad pwysig ar gyfer digwyddiadau ac mae hyn hefyd wedi cael effaith ar fusnesau.

Mae'n ymddangos bod angen dull gweithredu mwy cydlynol tuag at ddatblygu twristiaeth ar hyn o bryd, er mwyn cynnal cydbwysedd rhwng y ddarpariaeth a gwella gwasanaethau. Mae'r ffordd y mae pobl yn trefnu ac yn cynllunio eu gwyliau yn newid a gyda'r cynnydd mewn gweithgarwch archebu ar-lein, mae angen i ddatblygiadau yn y dyfodol fod er budd y dref.

*Adborth gan y gymuned;*

“Beth sy'n digwydd gyda Gwesty'r Plu.”

“Mae angen gwella'r ddarpariaeth parcio.”

“Byddai Siambr Masnach o fudd.”

“Ceir nifer fawr o ddigwyddiadau i dwristiaid.”

“Byddai gwasanaeth Wifi i'r dref ac Ap i'r dref yn dda.”

*Cysylltiadau i bolisiau'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI):*

Papur Pwnc Twristiaeth CDLI

## 8. Treftadaeth Ddiwylliannol a'r Iaith Gymraeg

Mae Aberaeron yn falch o'i chymeriad unigryw a'i chefnidir hanesyddol a diwylliannol. Felly, rhaid i bob datblygiad yn y dyfodol geisio cynnal a hyrwyddo hyn. Mae gan Gymdeithas Aberaeron rôl mawr i'w gyflawni wrth sicrhau'r cyd-destun hanesyddol.

Mae ffabrig y dref yn hanfodol er mwyn cynnal yr holl agweddau diwylliannol, felly rhaid sicrhau bod pob datblygiad yn cyd-fynd â nodweddion pensaernïol.

Mae nifer yn y dref a'r ardal yn siarad Cymraeg fel eu mamiaith neu eu hail iaith ac unwaith eto, rhaid ymdrechu i gynnal a gwella'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn y gymuned.

Adborth gan y gymuned;

“Byddai mwy o Wersi Cymraeg yn dda.”

“Parchu a diogelu enwau hanesyddol adeiladau a lleoedd.”

“Gwneud mwy o ymdrechion i ddarparu gwybodaeth i ymwelwyr am hanes y dref fel llwybr y dref.”

*Cysylltiadau i bolisiau'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI):*

Mae polisi strategol S06 CDLI2 sy'n dod i'r amlwg yn dynodi'r sir gyfan fel ardal ieithyddol sensitif ac mae'n gefnogol o ddatblygiad i hyrwyddo a chynorthwyo'r defnydd o'r iaith Gymraeg.

## 9. Newid Hinsawdd

Ar yr adeg hon, mae'r newid yn yr hinsawdd, ei effaith ar y byd yr ydym yn byw ynddo ac ymdrechion pobl i unioni'r sefyllfa yn uchel ar bob agenda. Felly, mae'n bwysig bod pob datblygiad yn Aberaeron a'r gymuned ehangach yn cysylltu gyda'r agenda hon. Gwnaethpwyd nifer o ymdrechion eisoes o gwmpas y dref gan unigolion, sefydliadau ac ati mewn perthynas â phethau fel lleihau'r defnydd o blastig untro a bydd mwy yn parhau i gael eu gwneud.

Roedd hi'n glir o'r digwyddiadau ymgynghori bod pob preswlydd yn ystyried ei fod yn flaenoriaeth, felly unwaith eto, mae angen dull wedi'i gydlynu a'i reoli.

Adborth gan y gymuned;

“Dylai mwy o gynhyrchion Masnach Deg fod ar gael yn y dref.”

“Darparu pwyntiau gwefru ar gyfer ceir trydan.”

“Nod i fod yn dref sy'n garbon positif ac sy'n rhydd rhag plastig.”

“Gweithio gyda Cadw a'r ACLI i sicrhau na waharddir adeiladau rhestredig rhag gosod paneli solar.”

## 10. Cyfleoedd Datblygu

Mae datblygiadau mewn perthynas â lleoedd wastad yn ddibynnol ar ardaloedd daearyddol, yn enwedig mewn perthynas â defnydd tir. Mae gan Aberaeron ei hun dirlun cymharol bach a chyfyngedig yn ffisegol. Cyfyngir arni gan y llethrau serth o'i chwmpas ac oherwydd y topograffeg hon, ceir prinder tir datblygu addas ar gyfer y dyfodol. Mae swm y tir a nodir yn y Cynllun Datblygu Lleol yn gyfyngedig iawn.

Mae hyn yn cynnig pos i Aberaeron gan bod angen sicrhau cydbwysedd rhwng cynnal yr hen a datblygu'r newydd. Trwy gydol yr ymarferion ymgynghori â'r gymuned, nodwyd/awgrymwyd nifer o ardaloedd posibl, a rhestrir y rhain yma. Fodd bynnag, mae gan bob un ohonynt ei broblemau a'i ystyriaethau ei hun.

- **Yr harbwr.** Rhestrwyd syniadau ar gyfer yr harbwr yn flaenorol. Y prif faterion ar gyfer datblygu ardal yr harbwr fyddai'r amddiffynfeydd môr a'r broblem gyda llifogydd. Effeithiau posibl ar y manau parcio a'r ffaith ei bod yn ardal gadwraeth.
- **Safle yr Ysbyty.** Mae'r ddarpariaeth wedi symud i'r Ganolfan Gofal Integredig newydd nawr. Nid yw'n hysbys eto beth fydd yn digwydd i'r hen ysbyty, ond mae angen tai yn y dref a thai fforddiadwy yn benodol. Ceir galwadau yn barod i gadw ffasâd yr adeilad. Byddai angen i unrhyw ddatblygiadau ar y safle nad ydynt yn cadw'r ffasâd gyd-fynd â phensaernïaeth hanesyddol Aberaeron. Gallai fod goblygiadau mewn perthynas â pharcio hefyd.
- **Anghenion tai a chyfleoedd.** Fel y soniwyd yn flaenorol, mae'r tir adeiladu yn Aberaeron yn gyfyngedig iawn ac mae'n anodd nodi unrhyw le ar gyfer tai, ac ar gyfer datblygu tai fforddiadwy yn arbennig, y tu hwnt i'r hyn sydd yn y CDLI. Pa ddatrysiadau creadigol y gellir eu canfod i ddarparu tai fforddiadwy addas i breswylwyr lleol, nad yw'n effeithio ar gymeriad y dref?
- **Cyfleoedd datblygu economaidd.** Fel y mae'n sefyll, byddai angen i gyfleoedd o'r fath fel gyda thai fod o fewn yr amgylchedd adeiledig presennol, felly mae angen datrysiadau creadigol ac wedi'u cydlynu. Ceir cyfle cyfyngedig iawn ar gyfer datblygiad o fath diwydiannol ysgafn. O ran manwerthu, ychydig iawn o siopau gwag sydd yn Aberaeron ac mae hyn yn galonogol. Mae'r ardal siopa yn gymharol fach a phan fydd siopau ar gael, byddant yn llenwi'n gyflym. Mae'n anos llenwi'r siopau mwy o faint pan fyddant ar gael, oherwydd yr ardrethi busnes uchel. Mae'n bwysig bod Aberaeron yn parhau i fod yn ddeniadol i fusnesau sy'n dymuno sefydlu eu hunain yn y dref. Mae Aberaeron wedi ffynnu trwy gael siopau bach, unigryw

a  
c

u  
n  
i